

# Y Cyfarfod Llawn

---

Dyddiad y cyfarfod:  
**Dydd Mercher, 29 Ebrill 2015**

Amser y cyfarfod:  
**13.30**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



---

## Agenda

(261)v2

---

### **1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

### **Datganiad gan y Llywydd**

Cyhoeddodd y Llywydd fod y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) wedi cael Cydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2015.

### **2 Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

**3 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar yr ymchwiliad i arferion gorau o ran y gyllideb Rhan 2 – Cynllunio gweithdrefnau cyllidebol newydd a'u rhoi ar waith (60 munud)**

**NDM5748 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar ei ymchwiliad i Arferion Gorau o ran y Gyllideb Rhan 2 – Cynllunio gweithdrefnau cyllidebol newydd a'u rhoi ar waith, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mawrth 2015.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Ebrill 2015.

## **Dogfennau Ategol**

[Adroddiad y Pwyllgor Cyllid](#)

[Ymateb Llywodraeth Cymru](#)

**4 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**  
**NDM5747 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd cefn gwlad Cymru i economi Cymru;
2. Yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r sector amaethyddol yng Nghymru;
3. Yn galw am roi mesurau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Lleoliaeth 2011 ar waith yn llawn yng Nghymru fel y gall cymunedau wneud cais am asedau lleol, fel swyddfeydd post a thafarndai, sy'n wynebu'r bygythiad o gael eu cau;
4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu amserlen ar gyfer cyflwyno gweddill prosiect Cyflymu Cymru, sy'n effeithio ar fusnesau a thrigolion mewn cymunedau gwledig; a
5. Yn gresynu at gau banciau'r stryd fawr yng nghefn gwlad Cymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i hwyluso trafodaethau ar fodel bancio cymunedol i sicrhau bod gwasanaethau dros y cownter yn parhau i fod yn hyfyw yng nghefn gwlad Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu'r cyhoeddiad yng Nghyllideb Llywodraeth y DU 2015 i ymestyn y cyfnod y gall ffermwyr hunangyflogedig nodi eu helw fel cyfartaledd o ddwy flynedd i bum mlynedd at ddibenion treth incwm, gan helpu dros 3,000 o ffermwyr unigol yng Nghymru i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

### **Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu'r ffaith bod cyllid ar gyfer Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru wedi cael ei adfer ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r CFFI i sicrhau ateb cynaliadwy hir dymor.

### **Gwelliant 3 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i helpu ardaloedd gwledig i ffynnu drwy hyrwyddo ffermio cyfran a chynllunio olyniaeth.

### **Gwelliant 4 – Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 3 a rhoi'r canlynol yn ei le:

Yn cydnabod yr angen i ddatblygu dull penodol i Gymru o ymdrin ag asedau cymunedol, sy'n adlewyrchu anghenion Cymru ac sy'n seiliedig ar ymgynghori eang yng Nghymru.

*[Os derbynnir gwelliant 4, bydd gwelliant 5 yn cael ei ddad-ddethol]*

### **Gwelliant 5 – Elin Jones (Ceredigion)**

Ym mhwynt 3, dileu 'sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Lleoliaeth 2011 ar waith yn llawn yng Nghymru' a rhoi 'ar waith' yn ei le.

**5 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**  
**NDM5746 Aled Roberts (Gogledd Cymru):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod cynllun blaenllaw ac aneffeithiol Llywodraeth Cymru, Twf Swyddi Cymru, wedi'i gau yn sydyn, heb unrhyw beth i gymryd ei le.

2. Yn nodi bod adroddiad gwerthuso interim 2014 ar Twf Swyddi Cymru wedi canfod:

a) y byddai 73 y cant o bobl ifanc wedi dod o hyd i gyflogaeth heb y cynllun;

b) bod methiannau sylweddol o ran targedu'r bobl ifanc hynny sydd angen help i ddod o hyd i waith fwyaf; ac

c) bod y rhai a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun wedi'u cyfyngu i gyflogau isel, gan ennill dim ond 67 y cant o'r cyfartaledd ar gyfer eu grŵp oedran.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio cynlluniau cyflogaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn y dyfodol ar wella lefelau sgiliau, cynyddu nifer y prentisiaethau a datblygu cyfleoedd hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith, a fyddai'n cefnogi pobl ifanc sy'n fwyaf tebygol o wynebu diweithdra hirdymor a rhoi sgiliau a chyfleoedd iddynt a fydd yn helpu i adeiladu economi gryfach i'w galluogi i lwyddo mewn bywyd.

[Mae adroddiad gwerthuso Twf Swyddi Cymru ar gael yma](#)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

1. Yn cydnabod bod economi Deyrnas Unedig gref:

a) yn creu'r amodau ar gyfer twf o ran cyfleoedd swydd i'n pobl ifanc;

b) yn herio ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac uwch, llywodraethau a chyflogwyr

i nodi a diwallu sgiliau sydd eu hangen yn y farchnad gyflogaeth sy'n tyfu; ac

c) yn caniatáu i entrepreneuriaid ifanc fanteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o dwf economaidd.

## **Gwelliant 2 – Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod cynllun blaenllaw Llywodraeth Cymru, sef Twf Swyddi Cymru, wedi'i gau yn sydyn ac yn galw am adfer rhaglen sy'n cyfateb iddo yn gyflym.

### **6 Cyfnod pleidleisio**

### **7 Dadl Fer – Gohiriwyd (0 munud)**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 5 Mai 2015